
Children in Wales
Plant yng Nghymru



# MAGU EIN PLANT YN HYDERUS

**Cynnig polisi ar gyfer datblygu cefnogaeth mewn modd strategol ar gyfer mamau, tadau a gofalwyr yng Nghymru**

# MAGU EIN PLANT YN HYDERUS

## Cynnig polisi ar gyfer datblygu cefnogaeth mewn modd strategol strategol cefnogaeth ar gyfer mamau, tadau a gofalwyr yng Nghymru

Mae Cynllun Gweithredu Rhianta[i] Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cwmpasu'r tair blynedd 2005-06 i 2007-08. Mae'r Fforwm Magu Plant a Tadolaeth Cymru, dau o rwydweithiau Plant yng Nghymru, wedi ymgynghori gyda'u haelodau a'r rhieni y gweithiant â hwy i lunio 'Maniffesto ar gyfer rhianta' y medrir ei ddefnyddio fel arf ar gyfer ymgyrchu a lobio a dylanwadu ar ddatblygu Cynllun Gweithredu Rhianta neu'n well fyth strategaeth ar gyfer rhianta am y tair blynedd nesaf.

**Rhianta**

Mae rhianta yn weithgaredd a wneir gan y rhai sy'n magu plant. Mae hyn yn cynnwys mamau a thadau, gofalwyr maeth a rhieni sy'n mabwysiadu, llys-rieni a neiniau a theidiau. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gweithredu fel rhieni corfforaethol ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu gofal[i]. Mae profiadau ac ymagweddau mamau a thadau yn aml yn wahanol – defnyddir y term generig 'rhiant' fel byrfodd oherwydd ystyriaethau gofod a llif ieithyddol.

**Fframwaith**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail ar gyfer ei holl waith gyda phlant ac mae wedi trosi'r Confensiwn yn saith nod greiddiol sy'n rhoi'r fframwaith polisi ar gyfer ei gwaith gyda phlant yng Nghymru. I'r mwyafrif o blant, y cartref teuluol yw lle byddant yn gwireddu llawer o'r hawliau a gynhwysir yn y Confensiwn. Mae'n amlwg fod gan rieni rôl hollbwysig fel gwarchodwyr ac eiriolwyr hawliau plant gyda'r wladwriaeth yn gyfrifol am weithredu fel y gwarantydd terfynol. Mae'r Confensiwn ei hunan yn cydnabod rôl allweddol rhieni - mae Erthygl 18 yn datgan hawliau rhieni i dderbyn cefnogaeth ac yn eu dynodi mai hwy sy'n bennaf gyfrifol am benderfyniadau ynglŷn â'u plant. Mae rhianta yn weithgaredd sydd angen cefnogaeth - mae rhieni angen yr adnoddau a'r gefnogaeth i gyflawni eu hoblygiadau i wella ansawdd bywydau eu plant. Mae **pob** rhiant yn profi cyfnodau a sefyllfaoedd o angen uchel un ai'n gysylltiedig â chyfnod datblygiad eu plentyn neu oherwydd amgylchiadau eraill megis profedigaeth neu wrthdaro teuluol. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad, ynghyd â'i phartneriaid mewn llywodraeth leol ac asiantaethau statudol eraill, gyfrifoldeb am gefnogi a datblygu'r amodau cywir ar gyfer rhianta cadarnhaol yn cynnwys mynediad i wybodaeth briodol, cefnogaeth a chodi ymwybyddiaeth o werth rhianta cadarnhaol ymhlith rhieni, plant a gwneuthurwyr polisi. Dylid fframio rhianta yn nhermau "cymuned" o fudd-ddeiliaid: rhieni, plant, darparwyr gwasanaeth lleol a chenedlaethol a llywodraeth. Rhaid i bob un gael yr adnoddau i gyflawni eu hoblygiadau a gwireddu'r hawliau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig gyda rhianta. Y nod sylfaenol yw gwella ansawdd bywydau plant yn awr ac yn y dyfodol mewn modd cadarnhaol.

Dengys ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Iechyd y caiff y rhan fwyaf o blant yn y Deyrnas Unedig eu taro gan rieni ac y caiff tua thraean ohonynt eu taro'n ddifrifol.[ii] Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd wedi cymryd safiad egwyddorol yn erbyn cosbi plant yn gorfforol ac wedi cefnogi'r Ymgyrch 'Sdim Curo Plant! Mae Ymgyrch 'SCP! yn annog Llywodraeth y Cynulliad i ymchwilio'r cyfleoedd am amddiffyniad cyfartal a roddir gan y pwerau newydd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Wrth wneud hyn, mae'r Ymgyrch SCP! hefyd yn cydnabod y gwaith a wnaeth y Cynulliad eisoes i gefnogi rhieni i ganfod ffyrdd di-drais o reoli ymddygiad eu plant yn effeithlon ac yn credu y dylid parhau ac ymestyn hyn.

Mae'r rhagymadrodd i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod cael eu magu mewn amgylchedd teulu ac mewn awyrgylch o gariad, hapusrwydd a dealltwriaeth yn anhepgor ar gyfer gwireddu hawliau'r plentyn. Dangoswyd fod amgylcheddau teulu a nodweddir gan gynhesrwydd, ymatebolrwydd a symbyliad a ffactorau eraill a gysylltir gyda rhianta da yn ffactor warchodol i blant a gaiff eu magu mewn ardaloedd amddifadus.[iii] Dangoswyd fod cael arferion gofal plant sensitif a chyson yn hybu ymdopi addasol mewn plant sy'n byw mewn tlodi drwy sefydlu disgwyliadau cadarnhaol am berthynas yn y dyfodol a hunanddelwedd gadarnhaol.[iv] Mae llawer o rieni angen gwasanaethau cefnogaeth priodol ac addysg rhianta i'w galluogi i feithrin, diogelu a chefnogi eu plant yn effeithlon, yn arbennig os cawsant brofiadau gwael pan oeddent hwy eu hunain yn cael eu magu. Gall rhianta heddiw fod yn heriol iawn a hyd yn oed yn fwy felly pan fo rhieni yn magu plant mewn amgylchiadau anodd. Mae plant angen cariad eu rhieni a sicrwydd emosiynol ond gall y rhieni eu hunain fod yn ei chael yn anodd ymdopi gyda'u problemau emosiynol ac ymarferol eu hunain. Gall cefnogaeth rhianta roi gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau hanfodol i rieni i'w helpu i reoli ymddygiad eu plant, gwella eu lles emosiynol, datblygu gwytnwch emosiynol a gwella'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn.

Mae gan rieni rôl allweddol o fewn pob un o saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- **Cael y cychwyn gorau mewn bywyd**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi'r prif gyfrifoldeb i rieni am fagu eu plant. Mae rhieni yn allweddol wrth roi'r cychwyn gorau i'w plant mewn bywyd – mewn datblygiad iaith a datblygiad gwybyddol, mewn iechyd ac mewn lles cymdeithasol ac emosiynol. Mae cefnogaeth gynhwysfawr a darpariaeth lles digonol yn hollol hanfodol i gefnogi rhieni yn eu rôl.

- **Cael ystod eang o gyfleoedd addysg, dysgu a hyfforddiant**

Rhieni a gofalwyr sy'n cael plant i'r ysgol yn y blynyddoedd cynnar a gall anogaeth a dymuniadau rhieni hyrwyddo llwyddiant plant mewn addysg a datblygu llythrennedd a rhifedd cynnar. Mae dysgu drwy chwarae yn y cartref yn allweddol i ddatblygiad gwybyddol a chymdeithasol ac emosiynol plant. Nid yw'r sgiliau na'r hyder gan rai rhieni i hyrwyddo addysg eu plant yn arbennig os cawsant hwy eu hunain blentyndod anodd neu brofiad gwael o'r system addysg. Nid yw rhai rhieni yn deall pwysigrwydd chwarae a symbyliad yn natblygiad eu plant. Mae cefnogaeth ac addysg rhianta felly'n hollbwysig wrth roi sgiliau a hyder i rieni yn y cyswllt hwn.

- **Mwynhau'r iechyd gorau posibl, ac yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio**

Hyd yn oed cyn geni eu plant, gall y dewisiadau a wnaiff rhieni am faeth a ffordd o fyw effeithio ar iechyd a datblygiad eu plant. Mae teuluoedd tlotach yn aml yn ei chael yn anodd i roi diet iach i'w plant oherwydd incwm isel, diffyg mynediad i fwyd am bris rhesymol, neu ddiffyg gwybodaeth am fwyta'n iach.[v] Gall byw mewn tlodi neu ar aelwyd lle mae'r berthynas rhwng rhieni a'u plant wedi chwalu gynyddu lefelau straen, a all arwain at broblemau emosiynol ac ymddygiadol. Mae ymchwil a rhaglenni cefnogaeth yn aml wedi tynnu sylw at y ffactorau fydd yn rhoi plant mewn **risg** o ganlyniadau gwael neu'n eu **diogelu.**[viii] Mae ffactorau risg yn gysylltiedig â rhianta yn cynnwys magwraeth teulu'r rhieni, diffyg goruchwyliaeth gan rieni, disgyblaeth lem ac anghyson gan rieni, anghydfod parhaus mewn teulu/trais gwrthdaro, rhieni yn gwahanu/ysgaru, absenoldeb y tad, ailbriodas a dyfodiad llys-riant. Mae'r ffactorau gwarchodol yn cynnwys perthynas dda gydag un rhiant, llawer o sylw i'r baban yn ei flwyddyn gyntaf, perthynas gadarnhaol rhwng y rhiant a'r plentyn mewn plentyndod cynnar, rhwydwaith ehangach o gefnogaeth gymdeithasol,

strwythur a rheolau ar yr aelwyd. Gall rhai o'r ffactorau gwarchodol hyn gael eu datblygu a gostwng y ffactorau risg gyda chefnogaeth ac addysg gynhwysfawr ar rianta.

Gall bywyd teulu fod yn brofiad anhapus i rai plant a phobl ifanc - ni all eu rhieni ymateb i'w hanghenion emosiynol a chorfforol a gallant fod yn elyniaethus a negyddol. Yn drist, mewn achosion eithafol mae rhieni yn cam-drin ac yn camfanteisio ar eu plant. Yn yr achosion hyn rhaid i fudd gorau'r plant fod yn bennaf a gall fod yn rhaid symud y plant i amgylchedd diogel. Fodd bynnag, gall gwaith ataliol a therapiwtig trylwyr gyda rhieni atal rhai teuluoedd rhag cyrraedd lefelau argyfwng o'r fath.

- **Cael cyfle i ymuno mewn chwrae, hamdden, campau a gweithgareddau diwylliannol**

Mae rhieni yn allweddol wrth ddarparu cyfleoedd chwarae y tu mewn a'r tu allan i'r cartref. Mae rhai rhieni yn camddeall ac yn bychanu gwerth chwarae ym mywyd eu plant ac efallai mai profiadau gwael o chwarae a gawsant gan eu rhieni eu hunain. Gall gwaith gyda rhieni eu helpu i weld fod chwarae yn meithrin datblygiad corfforol, meddyliol a chymdeithasol a rhoi mwy o hyder iddynt wrth chwarae gyda'u plant a rhoi cyfleoedd iddynt wneud hynny.

- **Cael gwrandawiad, cael eu trin â pharch, a bod a'u hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod**

Mae teuluoedd yn rhoi profiad democrataidd cam cyntaf i blant ac wrth gryfhau eu gallu ar gyfer cyfranogiad gwybodus wrth wneud penderfyniadau o fewn y teulu. Mae rhai rhieni angen arweiniad ar bwysigrwydd hwyluso cyfranogiad eu plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn ôl eu hoedran a'u haeddfedrwydd. Mae rhai rhieni hefyd angen arweiniad ar yr hyn sy'n briodol i'w ddisgwyl gan eu plentyn o gofio am eu cam datblygiadol fel nad ydynt yn mynnu na disgwyl unrhyw beth sy'n amhriodol gan eu plant. Mae'n amlwg fod smacio yn anghyson gyda thriniaeth sy'n dangos parch ond mae rhieni angen cefnogaeth ac arweiniad ar ddulliau eraill o ddisgyblaeth.

Rhieni yw'r prif eiriolwyr dros eu plant wrth hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol ac ethnig eu plentyn a magu eu plant gan ddangos parch at hunaniaeth eraill. Eto medrir meithrin ac ymchwilio hyn gyda gwaith gyda rhieni lle bo angen.

- **Byw mewn cartrefi diogel ac mewn cymunedau sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol**

Dengys ystadegau fod damweiniau yn y cartref yn gyffredin tu hwnt ac y medrant fod yn ddifrifol iawn. Medrir atal y rhan fwyaf o ddamweiniau os caiff rhieni eu hysbysu am fesurau diogelwch a'u cefnogi'n ariannol os na fedrant brynu offer diogelwch megis clwydi grisiau a gardiau tân. Mae rhieni hefyd yn eiriolwyr i'w plant o fewn y gymuned. Dengys ymchwil gan Ghate a Hazel[vi] fod rhieni mewn cymdogaethau amddifadus yn ganolog wrth gynghori eu plant ar sut i gadw'n ddiogel yn y gymuned. Mae rhieni hefyd yn fudd-ddeiliaid allweddol wrth adeiladu cymunedau diogelach ar gyfer eu plant.

- **Osgoi dioddef anfantais oherwydd tlodi**

Mae Erthygl 27 yn rhoi'r cyfrifoldeb pennaf i rieni am sicrhau fod gan eu plentyn hawl i safon byw sy'n ddigonol ar gyfer datblygiad eu plentyn. Mae hefyd yn dodi cyfrifoldeb ar y llywodraeth i gefnogi rhieni sy'n methu gwneud hyn.

## Beth yw’r materion o gonsyrn i ni ar hyn o bryd?

- Mae’r llywodraeth yn San Steffan wedi sefydlu nifer o gynlluniau gydag adnoddau penodol. Nid yw’r Cynulliad ar hyn o bryd yn cyhoeddi rhestr o adnoddau y mae’n eu darparu i brosiectau ‘rhianta’ ar sail Cymru-gyfan. Nid yw gwybodaeth ar gael ychwaith gan bob awdurdod lleol ar ddefnyddio cronfa Cymorth a grantiau eraill ar gyfer gwaith rhianta.
- Mae hyfforddi ymarferwyr rhianta yn hollbwysig wrth gyflenwi gwasanaethau. Mae’r rhan fwyaf o’r ymchwil yn cynnwys canllawiau NICE yn sôn am reidrwydd hwyluswyr safon uchel i gyflenwi rhaglenni. Gwnaeth Llywodraeth San Steffan hyn yn flaenoriaeth uchel gyda sefydlu Academi Rhianta i sicrhau y caiff ymarferwyr rhianta eu hyfforddi i safon uchel ac y caiff ymchwil ar arfer da ei rannu a’i hyrwyddo. Mae’n fater o bryder nad oes ffocws a phwyslais tebyg ar hyfforddi ymarferwyr rhianta yn digwydd yng Nghymru.
- Mae diffyg ffocws ar bwy sy’n cydlynu datblygiad polisi ar gyfer Cymru yn y Cynulliad ac unrhyw gorff annibynnol megis y Sefydliad y Teulu a Magu Plant a Parenting UK yn Lloegr. Mae’r swyddi rhianta sy’n seiliedig yn Plant yng Nghymru yn gyfwerth â 1.2 o swyddi llawn-amser, sy’n annigonol.
- Daw swm sylweddol o gyllid ar gyfer cymorth rhianta o gronfa Cymorth. Mae’r grantiau o’r ffrwd cyllid hwn ar gyfer gwasanaethau sydd wedi eu targedu. Mae dibyniaeth ar grantiau o’r fath yn cyfyngu faint o gefnogaeth gyffredinol i rianta y medrir ei ddarparu. Mae’r cynllun i gynnwys y gronfa Cymorth yn y Grant Cefnogi Refeniw yn codi pryder y medrai cyllid ar gyfer cefnogaeth rhianta fod mewn risg.
- Nid oes unrhyw adolygiad ar hyn o bryd o’r swm a fuddsoddir mewn cefnogaeth rhianta.
- Er y sylweddolwn y gwneir gwaith llawer o waith da i gynnwys rhieni ym mywyd ysgol eu plant, mae diffyg pwyslais gan Lywodraeth y Cynulliad ar bwy sy’n cydlynu ac yn hyrwyddo datblygiadau yn y maes hwn. Mae rhai yn y sector Addysg yn ystyried bod rôl rhieni yn un ymylol ac yn aml ni roddir sylw digonol iddi wrth ystyried rheoli ymddygiad disgyblion, heblaw lle daw ymddygiad heriol yn broblem sylweddol.
- Bydd rhieni un ym mhob pedwar plentyn yn gwahanu yn ystod oes eu plant ond nid oes ymagwedd gydlynol i ostwng, helpu a rhieni sy’n gwahanu.
- Mae gwasanaethau i rieni sy’n gwahanu yn ddarniog iawn ledled Cymru ac mae diffyg amlwg o ymchwil ar raglenni ataliol a chefnogaeth effeithlon ar gyfer rhieni sy’n gwahanu.
- Mae tystiolaeth nad yw rhai rhieni yn cael cynnig unrhyw help rhianta priodol o gwbl cyn iddynt gael Gorchymyn Rhianta.
- Mae addysg a chefnogaeth rhianta yn anwastad ledled Cymru ac mae rhaglenni targedig, er yn werthfawr iawn, yn colli nifer fawr o rieni sy’n cael trafferthion wrth fagu eu plant. Nid yw llawer o rieni plant dan anfantais e.e. plant anabl a rhai lleiafrifoedd ethnig yn derbyn cefnogaeth addas ar gyfer eu hanghenion. Mae cefnogaeth i rieni sydd wedi dioddef camdriniaeth eu hunain yn aml iawn yn brin.
- Mae safon y gwasanaethau rhianta yn amrywiol a dylai gael sicrwydd ansawdd
- Ni chaiff gwybodaeth i droseddwyr a’u teuluoedd ei rhoi fel mater o drefn ac nid yw trefniadau ymweld mewn carchardai bob amser yn gefnogol i droseddwyr a’u teuluoedd. Mae ansawdd a maint addysg ar gyfer troseddwyr, yn arbennig yng nghyswllt crefft magu plant a pherthynas y teulu yn dal yn anwastad.
- Dengys ffigurau diweddaraf Cyngor Gofal Cymru[vii] mai menywod yw 99% o’r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant sy’n golygu fod y sector yn brin o fodelau rôl gwryw mewn rolau gofalu a gall hefyd olygu nad yw tadau’n ymwneud â gwasanaethau a ystyriant i fod yn rhai i fenywod. Er nad oes mapio tebyg ar gael ar

gyfer y gweithlu cefnogi rhianta, mae'n debyg o roi darlun tebyg, yn arbennig mewn rhaglenni sydd wedi'u cyfeirio at rieni plant iau.

## Argymhellion

### 1. Strategaeth Genedlaethol ar Rianta ar gyfer Cymru

Os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno gwireddu ei saith nod craidd yng Nghymru, rhaid iddi sicrhau fod teuluoedd yn ganolog mewn datblygiad polisi ac y'u gwneir yn flaenoriaeth. Hoffem weld y Cynllun Gweithredu Rhianta yn cael ei ymestyn a'i ddatblygu gydag adnoddau penodol iddo. Dylai arweiniad i Bartneriaethau ar gyfer Cymorth fod yn fwy penodol am ba gefnogaeth rhianta a ddarperir. Dylid darparu dewis cytbwys o wasanaethau (fel sy'n digwydd gyda Dechrau'n Deg) i sicrhau y rhoddir cefnogaeth i rieni ar bob cam o ddatblygiad eu plant (h.y. cyn-geni, 0-5, 5-7, 7-11 a 11-18). Dylid rhoi hyblygrwydd i bartneriaethau am y modd y darperir hyn yn eu hardaloedd i sicrhau ei fod yn ateb anghenion rhieni yn eu hardal.

Mae'n dal heb fod yn glir pwy sy'n darparu pa gymorth i famau a thadau yn ardal pob awdurdod lleol er bod rhai awdurdodau yn casglu a chywain yr wybodaeth hon ar gyfer ymarferiadau asesu anghenion yng nghyswllt datblygiad eu Cynllun Sengl. Byddai'n ddefnyddiol tu hwnt pe bai'r Cynulliad yn tynnu'r wybodaeth hon ynghyd ar sail Cymru-gyfan fel y medrir mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth.

Yn gyfochrog gyda'r strategaeth, rhaid i Lywodraeth y Cynulliad godi proffil rhianta o fewn Llywodraeth y Cynulliad a hefyd ymhlith gweddill poblogaeth Cymru. Dylai fod aelod penodol o Lywodraeth y Cynulliad yn arwain ar faterion rhianta a dylid datgan hyn yn glir ym mhortffolio'r Gweinidog perthnasol (e.e. drwy gryfhau rôl y Gweinidog Plant). Dylai'r Gweinidog yma edrych ar effaith meysydd eraill o bolisi sy'n effeithio ar deuluoedd megis tlodi a gofal plant a sicrhau y caiff y strategaethau yn gysylltiedig â hyn eu datblygu'n iawn yn unol gyda'i gilydd ac adrodd y cynnydd i'r Cynulliad. Dylid clustnodi rhan o wefan y Cynulliad i rianta a'i datblygu fel cyfrwng i hyrwyddo arfer da a rhannu gwybodaeth i Aelodau Cynulliad, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau fod Parentsnet yn weithredol a chynyddu ei gwmpas i gynnwys gwybodaeth i famau a thadau ar ddatblygiad plant, diogelwch plant, ymdrin â materion megis bwlio, rhianta cadarnhaol a lle i gael cefnogaeth (e.e. http://www.direct.gov.uk/en/Parents/index.htm).

Dylid datblygu dulliau cenedlaethol cyffredin ac ymarferol o werthuso effeithlonrwydd rhaglenni cefnogaeth rhianta. Yn neilltuol, dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud mwy i gynorthwyo i werthuso'r rhaglenni rhianta a ddatblygwyd yn lleol sydd ar gael ar hyn o bryd, fel y gall y rhai effeithiol gael eu cefnogi drwy gyllid. Yn ddelfrydol dylai'r Cynulliad gefnogi sefydliad neu swydd i fod yn lladmerydd dros rianta yng Nghymru, cynyddu safonau a chydlynu gwerthuso a mapio rhaglenni a ddefnyddir yng Nghymru. Byddai'r lladmerydd yn ganolbwynt ar gyfer cyfnewid syniadau a dysgu; helpu ymarferwyr i gael mynediad i hyfforddiant priodol ac ymchwilio pa ddulliau sy'n gweithio i gefnogi rhieni. Medrai'r swydd hon hefyd fod yn ganolog wrth hybu safonau galwedigaethol ar gyfer gwaith gyda rhieni. Byddent yn datblygu cysylltiadau gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Ymarferwyr Rhianta yn Lloegr.

### 2. Rhwydwaith cyffredinol wedi'i gydlynu o wasanaethau cefnogaeth teulu

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl allweddol wrth sicrhau fod gwasanaethau ar gael i famau a thadau pan fyddant eu hangen yn y cyfnod cyn-geni ac ar gyfnodau allweddol ym mywyd eu plentyn. Gall gwaith ataliol o'r fath rwystro anawsterau pan fydd plant yn hŷn, sy'n gostus i'r plentyn, i deulu'r plentyn ac i'r wladwriaeth. Cefnogaeth gynnar sydd hefyd â'r potensial mwyaf i gyflenwi canlyniadau cadarnhaol.[viii] Canfu gwerthusiad o raglen o

ddigwyddiadau yng Ngorllewin Llansawel ger Castell Nedd i hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant[xi] fod rhieni yn ystyried fod stigma ar ddefnyddio rhaglenni rhianta. Byddid yn gostwng stigma o'r fath pe bai mwy o gefnogaeth ar gael yn gyffredinol fel rhan o'r gwasanaethau prif ffrwd. Teimlai'r rhieni hyn hefyd fod mynediad i gyngor a chefnogaeth yn dibynnu ar fod mewn cyswllt gyda'r ymarferydd unigol "iawn" neu ar i sefyllfaoedd gyrraedd pwynt argyfwng. Fel gwasanaeth cyffredinol, dangoswyd fod ymwelwyr iechyd yn allweddol wrth gyfeirio rhieni at wasanaethau a dynodi sefyllfaoedd lle mae angen mwy o gefnogaeth.[xii] Mae gweithwyr gofal plant megis gofalwyr plant, gweithwyr cylchoedd chwarae a staff clybiau ar ôl ysgol yn aml yn rhoi cefnogaeth i rieni ac yn eu cyfeirio at wasanaethau eraill. Maent angen hyfforddiant a chefnogaeth i'w galluogi i wneud hyn yn hyderus ac i ymrwymo gyda thadau yn ogystal â mamau. Bu Genesis Cymru hefyd yn llwyddiannus iawn yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol drwy helpu rhai rhieni i ymrwymo gyda gwasanaethau drwy gynghorwyr rhieni.

Dylai pob awdurdod fod â dewis cytbwys o wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau wedi eu targedu a ddarperir drwy grwpiau a chefnogaeth un-i-un fel sy'n briodol. Dylai gwasanaethau fod ar gael ar wahanol amserau ac mewn lleoliadau addas ar gyfer anghenion a sefyllfa mamau a thadau. Dylid ymestyn Dechrau'n Deg i bob rhiant mewn angen, nid dim ond y rhai sy'n digwydd byw mewn ardal ddaearyddol benodol, os yw'r gwerthusiad o'r cynllun yn addawol. Dylid ystyried anghenion rhieni anabl a rhieni mewn cymunedau gwledig anghysbell, i dadau yn ogystal â mamau, wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Dylai'r gwasanaethau hyn gynnwys:

- Gwasanaethau cyn-geni ac ôl-eni cynhwysfawr sy'n trafod materion magu plant yn ogystal â'r enedigaeth ei hunan ac yn pwysleisio rôl hollbwysig tadau yn lles eu plant. Dylai'r gwasanaethau hyn fod yn sensitif i anghenion penodol rhieni anabl, tadau, rhieni ifanc, rhieni plant yn eu harddegau a rhieni mewn cymunedau du a lleiafrif ethnig. Dylai fod nifer ddigonol o ymwelwyr iechyd a bydwragedd i ddarparu gwasanaeth o'r fath, sy'n neilltuol o bwysig wrth sicrhau fod rhieni "anodd eu cyrraedd" yn gwybod am wasanaethau. Dylai fod mewnbwn sylweddol i'r gefnogaeth a gynigir i rieni plant hŷn.
- Gwybodaeth i rieni, a roddir yn rheolaidd ac yn neilltuol ar bwyntiau trosiant fel mynd i'r ysgol, cychwyn yn yr ysgol uwchradd a blynyddoedd yr arddegau. Medrid ymchwilio Pwynt Gwybodaeth Rhieni Sefydliad y Teulu a Magu Plant fel model, gyda phwyslais ychwanegol ar ymrwymo tadau yn ogystal â mamau. Medrai arweiniad i ysgolion gynnwys cyngor i ysgolion ar sut y medrent ddarparu peth o'r wybodaeth hon.
- Ymchwilio posibilrwydd darparu gwybodaeth a chefnogaeth teulu mewn meddygfeydd (efallai'n defnyddio Gwell Cyngor Gwell Iechyd y CAB fel model) a thrwy ysgolion cymunedol a chanolfannau teulu.
- Rhwydweithiau anffurfiol a chefnogaeth cymheiriaid o famau a thadau a gaiff eu hannog a'u cefnogi.
- Cefnogaeth rhianta i deuluoedd gydag anghenion mwy cymhleth i gynnwys ymyriad teuluol dwys, cynadleddau grŵp teulu a help therapiwtig yn cynnwys y teulu estynedig.
- Dylai enghreifftiau da o ymarfer yng Nghymru wrth gyflenwi cefnogaeth rhianta teilwredig i ateb anghenion penodol tadau, rhieni ifanc a rhieni o gymunedau du a lleiafrif ethnig fod ar gael yn helaethach. Dylid rhannu'r modelau hynny sy'n dangos addewid gyda phob awdurdod lleol. Dylid datblygu arweiniad yng Nghymru ar gyfer ymrwymo tadau.
- Cefnogaeth neilltuol i rieni a fu yng ngofal awdurdod lleol gan eu bod hwy'n aml heb gefnogaeth teulu estynedig a datblygu modelau rôl cadarnhaol ar gyfer y bobl ifanc hyn (er enghraifft drwy raglenni mentor)

- Cefnogaeth i famau a thadau yn eu harddegau i'w helpu i barhau â'u haddysg a/neu hyfforddiant a chydbwyso hyn gyda'u rôl fel rhieni
- Rhaglenni cefnogaeth seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rhieni sy'n gwahanu (gyda sensitifrwydd at sefyllfaoedd o drais yn y cartref) a strategaeth gydlynol ar gyfer datblygu gwasanaethau hygyrch ledled Cymru. Dylai ymchwil ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio orau i blant pan fo'u rhieni yn gwahanu
- Rhaglenni cefnogaeth a rhianta penodol ar gynlluniwyd ar gyfer rhai sy'n dioddef ac yn achosi trais yn y cartref
- Darpariaeth ar gyfer rhieni sydd wedi profi cam-driniaeth eu hunain
- Addysg ar rianta i bawb a deunyddiau gwybodaeth i rieni mewn carchardai a'u teuluoedd
- Dylai dynion gael eu targedu (yn unol gyda'r Ddyletswydd i Gydraddoldeb Rhyw) wrth recriwtio ar gyfer cefnogaeth rhianta a gwasanaethau gofal plant i weithredu fel modelau rôl cadarnhaol, annog mwy o dadau i gymryd rhan mewn gwasanaethu ac i roi ffigur gwryw cadarnhaol ym mywyd plentyn pan nad oes ganddynt ffigur o'r fath adref

Dylai fod arweiniad i ymarferwyr sy'n darparu cefnogaeth i oedolion ar gydnabod a chefnogi rôl rhianta'r oedolion. Gall oedolion gael cefnogaeth oherwydd anabledd, materion iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Er enghraifft dylai gwasanaethau a ddarperir i oedolyn anabl roi ystyriaeth i'w hanghenion fel rhieni a dylai asesiadau gynnwys yr hyn sydd ei angen ar gyfer iddynt parhau i fod yn rhiant. Dylid ystyried rôl fel rhiant fel angen cefnogaeth ddilys.

Mae gan neiniau a theulu (ac yn aml y teulu estynedig ehangach) rôl arwyddocaol ym mywyd eu hwyrion. Amcangyfrifodd Sefydliad Beth Johnson fod 86% o neiniau a theidiau yn darparu gofal plant. Yn ôl y Gymdeithas Neiniau a Theidiau, mae un ym mhob cant o blant yn byw gyda mam-gu neu dad-cu, eto yn aml caiff y grŵp hwn ei diystyru mewn polisïau a gwasanaethau cefnogaeth. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu ar yr argymhellion gan y Gweithgor Neiniau a Theidiau.

### 3. Arweiniad ar gynnwys rhieni yn addysg eu plant a grantiau i gefnogi prosiectau mewn ardaloedd amddifadus

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo gweledigaeth o wasanaethau cyhoeddus sydd yn canoli mwy ar y dinesydd, sy'n ymateb i angen y gymuned gyda phob person yn cael cyfle i gyfrannu. Mae ymgyfraniad mamau a thadau mewn ysgolion yn rhan greiddiol o'r egwyddor hon.

Dangosir hefyd fod ymgyfraniad rhieni yn yr ysgol yn gwella cyrhaeddiad a mynychiad. Dengys astudiaeth yn 2003 gan yr Athro Charles Desforges o Brifysgol Caerwysg y gall rhianta da 'gartref' gael gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol ar gyflawniad plant yn yr ysgol. Roedd effaith gadarnhaol sylweddol rhianta da ar gyrhaeddiad plant yn amlwg, hyd yn oed ar ôl rhoi ystyriaeth i'r holl ffactorau eraill yn effeithio ar gyrhaeddiad (megis dosbarth cymdeithasol, ethnigrwydd, amddifadedd materol ac ati). Dangoswyd fod ymgyfraniad mamau a thadau yn arwyddocaol - mae ymgyfraniad y ddau yn well na dim ond un. Mae rhianta da yn yr ysgol yn cynnwys darpariaeth amgylchedd diogel a sefydlog, symbyliad deallusol, cefnogaeth emosiynol, trafodaeth rhiant-plentyn, gwerthoedd cymdeithasol a deallusol adeiladol ac uchelgais. Yn yr un modd dengys adroddiad NSPCC[ix] fod problemau neu gamdriniaeth yn y cartref yn cael effaith sylweddol ar ymddygiad a chyrhaeddiad academaidd.

Gall rhai mamau a thadau gysylltu ysgolion gyda'u profiadau anhapus eu hunain fel plant, felly maent angen cefnogaeth ac anogaeth i ymwneud ag addysg eu plant. Dylid datblygu arweiniad i ysgolion i roi amrywiaeth o syniadau iddynt am ffyrdd o gynnwys rhieni, cefnogi rhieni a chwalu rhwystrau. Byddai hyn yn cynnwys arweiniad i ysgolion, gan roi ystyriaeth gyfartal i anghenion yr holl deuluoedd a gynrychiolir yn y dosbarth yn cynnwys tadau, rhieni anabl, cymunedau du a lleiafrif ethnig a theuluoedd gyda rhiant yn y carchar. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth i ysgolion am ddatblygu partneriaethau gydag ystod o weithwyr proffesiynol a sefydliadau a all gynorthwyo yn y broses hon. Medrai gweithgareddau gynnwys:

- Sesiynau gwybodaeth, yn targedu mamau a thadau ar bwyntiau trosiant allweddol
- Rhaglenni rhianta a gynhelir gyda chefnogaeth gwasanaethau plant eraill, a
- Sesiynau dysgu teulu ***mewn ysgolion ac yn y cartref*** i alluogi plant i ddysgu gyda'u rhieni, efallai mewn partneriaeth gydag Addysg Oedolion a Dysgu Gydol Oes

**Dylid ymestyn y grant Rhagori i gynnwys cyllid penodol i gefnogi prosiectau sy'n helpu rhieni i gymryd rhan yn addysg eu plant.** Medrai hyn gynnwys rhaglenni sydd wedi ymsefydlu megis Rhieni fel Partneriaeth mewn Dysgu Cynnar; Partneriaeth Addysg Gynnar Cyfoedion; Rhaglen Ysgol Dinosor Therapiwtig Blynyddoedd Anhygoel Webster-Stretton a gweithgareddau llenyddol eraill a rennir. Medrai hyn gynnwys defnyddio unigolyn a gyflogir i roi'r gefnogaeth benodol hon megis gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr ieuenctid - model a fu'n llwyddiannus mewn prosiectau i atal gwahardd o'r ysgol.

Canfu ymchwil ddiweddar gan yr Athro Ken Reid yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe na chredai'r rhan fwyaf o athrawon fod carcharu rhieni, rhoi dirwyon yn y fan a'r lle neu orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gostwng cyfraddau absenoliaeth uchel. Teimlai'r rhan fwyaf fod cynhwysiant yn fwy effeithlon wrth fynd i'r afael â thriwantiaeth. Dylai cyrsiau rhianta fod ar gael mewn ysgolion ledled Cymru lle mae problemau presenoldeb ac ymddygiad gan fod digonedd o dystiolaeth y medrai cyrsiau sydd wedi eu seilio ar ymddygiad newid agweddau rhieni ac ymddygiad plant. Dylid ymchwilio ac efallai ehangu rôl Swyddogion Lles Addysg yn y maes hwn. Dylid gwerthuso pa mor effeithiol yw gwaharddiadau ac Unedau Cyfeirio Disgyblion wrth helpu rhieni gyda phroblemau addysg ac ymddygiad eu plant.

### 4. Achrediad hyfforddiant priodol ac effeithiol i'r gweithlu

Mae tystiolaeth fod y ffordd y caiff rhaglenni rhianta eu cyflwyno mor bwysig â chynnwys y rhaglen.[viii] Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hyrwyddo a rhoi mesurau ar waith i sicrhau gweithlu gyda'r sgiliau priodol. Dylent hybu gweithrediad y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwaith gyda Rhieni.

Mae'r Safonau'n diffinio'r cymhwysedd, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y mae'r rhai sy'n gweithio gyda mamau a thadau eu hangen a medrir eu defnyddio i ddatblygu a monitro'r gofynion hyn mewn unigolion a gwasanaethau. Medrant helpu i ddatblygu a chadw gweithlu hyblyg uchel ei gymhelliant; dynodi bylchau gwybodaeth a sgiliau; annog staff i ennill sgiliau a gwybodaeth ar gyfer gwella rhagolygon swyddi a dynodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu a gwella cynllunio trefniadol.

5. **Cyfranogiad mamau a thadau wrth ddylunio a chyflenwi gwasanaeth**

Gall cynnwys mamau a thadau mewn gwasanaethau wella ansawdd bywyd plant a'u teuluoedd. Gall gwasanaethau a ddatblygir mewn partneriaeth gyda rhieni fod yn fwy perthnasol, cael eu defnyddio'n well ac ymatebol i newid mewn anghenion[x]. Dangosodd Barrett[viii] fod y berthynas rhwng yr hwylusydd a defnyddwyr yn ffactor allweddol ym mha mor effeithlon yw rhaglenni cefnogaeth rhianta, a medrir gwella hynny drwy i wasanaethau gymryd ymagwedd wirioneddol bartneriaeth. Gall rhieni sy'n ymrwymo'n dda gyda gwasanaeth gynnig help i eraill, gan weithredu fel gwirfoddolwyr, addysgwyr neu fentoriaid i rieni eraill gan greu buddion yn y gymuned. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau fod gweithwyr proffesiynol mewn iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol yn cydnabod fod cynnwys rhieni yn y broses benderfynu o fudd i bawb ac y gall arwain at wasanaeth mwy cost-effeithlon. Dylai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc gynnwys yr ystod ehangaf posibl o famau a thadau mewn penderfyniadau am ddatblygiadau gwasanaeth i sicrhau fod gwasanaethau yn addas ar gyfer grwpiau amrywiol. Dylai'r cyngor a'r argymhellion a wneir yn "Cyfranogiad Rhieni: Canllawiau Ymarfer ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc"[x] gael eu hyrwyddo'n eang.

6. **Hyrwyddo Rhianta Cadarnhaol**

Canfu gwerthusiad o raglen o ddigwyddiadau yng Ngorllewin Llansawel i hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant [xi] nad oedd mwyafrif y bobl yn y gymuned yn credu fod smacio plant yn ddull effeithiol o reoli ymddygiad plant. Argymhellodd y gwerthusiad y dylai hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio fod yn rhan gyfannol o arfer bob dydd i bob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad gyda rhieni. Dynodwyd fod Ymwelwyr Iechyd yn ffynhonnell allweddol o gyngor a chefnogaeth i blant ifanc a chefnogir hyn gan ymchwil a gomisiynwyd gan Sefydliad y Teulu a Magu Plant.[xii] Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu ei gwaith ar hyrwyddo rhianta cadarnhaol a Chomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ymhlith rhieni fel y caiff eu cyfrifoldebau yng nghyswllt hawliau eu plant yn y Confensiwn eu deall yn llawn, er enghraifft dealltwriaeth plant o sut i annog gallu eu plant i gymryd rhan wybodus ym mhroses benderfynu'r teulu. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu strategaeth gyfathrebu a lledaenu i gefnogi hyn. Er mwyn asesu pa mor effeithlon yw'r strategaeth, dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnal ymchwil ar agweddau at, a mynychder, cosbi corfforol yng Nghymru. Dylai hyn ddefnyddio'r arolygon/pôl sydd ar gael. Dylid ariannu ymgyrch addysg y cyhoedd ar ddewisiadau heblaw cosbi corfforol. Dylid cynhyrchu llyfryn i rieni plant hŷn i ategu'r llyfrynnau a gynhyrchwyd eisoes [xiii] a dylid cynhyrchu copïau ychwanegol (gyda diweddariadau os oes eu hangen) o'r llyfrynnau presennol i'w dosbarthu ar ôl 2008 (ar ôl i'r copïau cyntaf ddod i ben).

7. **Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor**

Mae mamau a thadau eisiau ac angen gwybodaeth ar amrediad o bynciau megis pa wasanaethau sydd ar gael, beth yw eu hawliau, ar addysg eu plant, ar fagu plant ac unrhyw bwnc arall yn gysylltiedig â'u rôl yn magu plant. Mae gwybodaeth o safon uchel, ar gael yn eang, yn allweddol wrth helpu rhai rhieni i ganfod datrysiadau i'w problemau eu hunain neu i reoli eu cyfrifoldebau fel rhieni yn fwy effeithlon. Maent angen gwybodaeth a all eu helpu i ddynodi a deall eu problemau fel y medrant ganfod ffyrdd o'u datrys un ai ar eu pen eu hunain neu gyda chefnogaeth o'r tu allan. Mae angen i systemau fod ar waith fel bod gwybodaeth yn cyrraedd cynifer o rieni ag sydd modd. Mae angen ystyried materion o iaith, llythrennedd, rhyw ac amhariad a dylai gwybodaeth fynd allan mewn nifer mor eang ag sydd modd o wahanol fformatau a lleoliadau i gyrraedd amrywiaeth o rieni. Gall rhieni hefyd helpu i ddylunio gwybodaeth mewn ffordd rhwydd ei defnyddio. Dylai Llywodraeth y

Cynulliad barhau i hyrwyddo datblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr i rieni a dylai hyn gael adnoddau a chyhoeddusrwydd digonol. Dylid cyflwyno'r llinell ffôn genedlaethol ddwyieithog i rieni a addawyd yn y Cynllun Gweithredu Rhianta diwethaf.

Mae mamau a thadau hefyd angen gwybodaeth a chyngor ar bwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol eu plant a sut y medrant eu hwyluso. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gynhyrchu llawlyfr i rieni ar beth yw chwarae ansawdd da a sut y medrant helpu ei hwyluso, fel yr addawyd yn y Cynllun Gweithredu Chwarae. Dylid cael pwyslais cyfartal ar chwarae hunan-gyfeiriedig a ddewisir yn rhydd gan y plant yn ogystal â chwarae sy'n cefnogi eu datblygiad addysgol.

### 8. Cyllid tymor-hir i fod ar gael i brosiectau yn darparu cefnogaeth rhianta yn cynnwys ar gyfer cynlluniau wedi'u targedu megis Dechrau'n Deg

Mae cyllid tymor byr yn dodi pwysau difrifol ar staff a gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gall arwain at anawsterau recriwtio a morâl is ymhlith staff. Gall diffyg cyllid craidd lesteirio datblygiad ac arloesi. Canfu Adroddiad gan y Trysorlys yn 2002[xiv] fod prosiectau sy'n dibynnu ar gyllid blynyddol yn ei chael yn anodd darparu parhad gwasanaeth, a bod hynny'n effeithio ar ansawdd y gwaith oherwydd bod staff yn cael eu cyfeirio ymaith o ddyletswyddau craidd rheng flaen. Mae rhieni y tybir eu bod yn "anodd eu cyrraedd" yn aml angen cyfnodau estynedig o gefnogaeth gyda gwaith allgymorth helaeth i adeiladu ymddiriedaeth. Gall cyllid tymor byr arwain at drosiant staff uchel, sydd fel canlyniad yn ei gwneud yn fwy anodd i staff sefydlu perthynas gyda rhieni a'u plant. Dylai cyllid fod am o leiaf dair blynedd a chynnwys arian ar gyfer recriwtio, hyfforddi a datblygu staff. Dylid neilltuo peth cyllid ar gyfer prosiectau cefnogi rhieni. Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu'n rheolaidd faint o fuddsoddiad a wneir mewn plant a phobl ifanc a chefnogaeth i'w rhieni yn rheolaidd. Dylai Llywodraeth y Cynulliad hefyd adolygu'r berthynas rhwng galw a'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Lle mae adnoddau yn gyfyngedig, mae'r ffocws yn tueddu i fod ar reolaeth argyfwng ymatebol. Mae angen disgwyliad realistig ar faint y medrir ei gyflawni drwy gronni cyllidebau ac arbedion effeithlonrwydd.

---

[i] LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2005): Cynllun Gweithredu Rhianta – Cefnogi mamau, tadau a gofalwyr gyda magu plant yng Nghymru", Tachwedd 2005

[ii] NOBES, G., & SMITH, M. (1997) "Physical punishment of children in one- and two-parent families". Proceedings of the British Psychological Society. 5. ISSN: 1350-472X.

[iii] SEAMAN, P. ET AL (2005) "Parenting and Children's Resilience in Disadvantaged Communities" Sefydliad Joseph Rowntree

[iv] SROUFE, L. A., EGELAND, B., CARLSON, E., & COLLINS, W. A. (1990) The fate of early experience following developmental change: longitudinal approaches to individual adaptation in childhood Child Development 1990 Hydref; 61(5): 1363-73.

[v] NCH, "Going hungry: the struggle to eat healthily on a low income", Llundain: NCH, 2004

[vi] Ghate, D. a Hazel, N. (2002) "Parenting in Poor Environments. Stress, Support and Coping, Llundain: Jessica Kingsley

[vii] CYNGOR GOFAL CYMRU (2007) "Cwmpas a Mapio Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant – Adroddiad Terfynol", Cyngor Gofal Cymru

[viii] BARRET, H. (2003) "Parenting Programmes for Families at risk" Llundain: Sefydliad Cenedlaethol y Teulu a Magu Plant

[ix] MILLS, C. (2004) "Problems at home, problems at school: The effects of maltreatment in the home on children's functioning at school: an overview of recent research", Llundain, NSPCC

[x] LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2006) Cyfranogiad Rhieni: Canllawiau Ymarfer ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ", Dogfen Wybodaeht yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Rhif 19-06, Medi 2006

[xi] BUTLER, V. & CLUTTON, C. (2007) "Help wrth Law: Adroddiad yn gwerthuso rhaglen o weithgareddau yn hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant" Comisiynwyd gan 'Sdim Curo Plant

[xii] SEFYDLIAD TEULU A MAGU PLANT (2007) Health Visitors – an endangered species, Ebrill 2007 (Dangosodd pôl YouGov poll o 4775 o rieni plant dan bump oed a gafodd ymweliad gan ymwelydd iechyd yn rhoi mandad clir gyda chefnogaeth lethol i'w rôl) .

[xiii] "Ymddygiad Dros Ben Llestri mewn Plant dan Ddeg – Ymddygiad Arferol Plentyndod neu Ymddygiad sy'n Peri Problem" a ddosbarthwyd i rieni plant ym mlwyddyn 2 ac "O Amser Brecwast i Amser Gwely – Helpu eich plentyn drwy'r dydd" a ddosbarthwyd drwy ymwelwyr iechyd. Byddant wedi eu dosbarthu dros gyfnod o ddwy flynedd gyda chopïau ychwanegol wedi'u dosbarthu gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant ac yn ad hoc gan ysgolion, canolfannau teulu a phrosiectau eraill cefnogi teulu. .

[xiv] TRYSORLYS (2002) "The Role of the Voluntary and Community Sector in Service Delivery: A Cross Cutting Review" Rhan o Adolygiad Gwariant 2002 y Trysorlys